

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cynghorydd C. Davies

Ward: Caerau

Plaid: Annibynwyr Llynfi

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Ebrill 2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Caerau** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi dros 100 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon: [Y Cynghorydd Chris Davies](#)

Gweithgareddau Etholaethol

Rwy'n parhau i weithio'n agos gyda V2C a Hafod Housing ar ran eu preswylwyr ynghylch materion lleithder, atgyweiriadau a gwasanaethau.

Rwyf hefyd yn dal i ymwneud â thrigolion Caerau y cafodd eu cartrefi eu heffeithio gan gynllun Arbed.

Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r problemau ynghylch ardal chwarae Blaencaerau, y bu'n rhaid ei chau gan ei fod yn anniogel, a rhoddais feinciau picnic fel y gellid defnyddio'r ardal y tu allan ar gyfer gweithgaredd plant.

Roeddwn hefyd yn rhan o'r broses ymgynghori ar adnewyddu'r ardal chwarae yn Nantyffyllon.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Fel cadeirydd Sied Dynion Caerau rwyf wedi helpu i geisio cyllid ar gyfer gardd gymunedol wrth ymyl y gweithdy, a fydd yn hawdd ei gyrraedd i bawb, gan gynnwys plant o ysgolion lleol.

Unwaith eto, fe wnes i helpu i drefnu a mynychu taith sled Siôn Corn drwy Faesteg a Chwm Llynfi ar ddwy noson ym mis Rhagfyr, yn ogystal â threfnu ogof Siôn Corn yng ngweithdy Sied Dynion Caerau ar gyfer y plant.

Roedd coed Nadolig ffres hefyd yn cael eu darparu am ddim i nifer o ysgolion cynradd lleol gan y Sied Dynion.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwy'n parhau i fod yn Gadeirydd Cymdeithas Cyn-Glowyr Cwm Llynfi, y mae ei 36 aelod yn cyfarfod bob pythefnos.

Fel ymddiriedolwr Sefydliad y Glowyr Nantyffyllon, rwy'n mynychu cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned leol.

Fel Dirprwy Faer Maesteg, cynrychiolais gyngor y dref mewn nifer o ddigwyddiadau lleol.

Rwy'n parhau i fod yn ymddiriedolwr ar Hafan Ddiogel Maesteg, sy'n gofalu am yr Wcrainiaid sydd wedi'u dadleoli sy'n byw yng Nghwm Llynfi.

Fel Cadeirydd, rwy'n helpu i drefnu a mynychu cyfarfodydd wythnosol Sied Dynion Caerau yng Nghapel Dyffryn yn rheolaidd, sydd â dros hanner cant o aelodau erbyn hyn.

Y Cyngorydd: C. Davies

Dyddiad: 16.06.24